LITTLE BIG FUTURES



# Cymunedau a diogelwch tân

GWERS CLWB STEM: CANLLAWIAU I DDYSGWYR Y CLWB

## Deilliannau dysgu

- Archwilio amryw o faterion sy’n effeithio ar ddiogelwch tân
- mewn cymunedau Gwerthuso ffyrdd o wella diogelwch tân mewn cymuned
- Disgrifio a dylunio strategaethau er mwyn gwella diogelwch tân

## Adnoddau

- Papurau post-it neu debyg i fyfyrwyr allu grwpio mathau o adeiladau
- gyda’i gilydd Deunydd poster ar gyfer yr her derfynol ynghylch gwella diogelwch tân
- Offer creu modelau



STEM LEARNING


CISCO

# Cynllun gwaith gweithgareddau gwers

## (5 awr; gellir ei ymestyn os yn briodol)

| | Gweithgaredd | Adnoddau |
|---|---|---|
| Gweithgaredd 1<br>**(5 mun)** | Eglurwch bod dyfeisiau nad oeddent yn gysylltiedig o'r blaen yn cael eu cysylltu er mwyn creu newid anferth yn y ffordd mae'r byd yn gweithio. Dyma yw sail Rhyngrwyd Popeth. | Fideos i'w ffrydio:<br>Cyflwyniad cyffredinol i 'Rhyngrwyd Popeth' |
| Gweithgaredd 2<br>**(10 mun)** | **Ffactorau diogelwch tân**<br>Gofynnwch i'r myfyrwyr beth maent yn meddwl yw'r ffactorau sydd angen i ni eu hystyried mewn perthynas â diogelwch tân.<br>Gall rhai cyffredin fod yn<br>- bobl<br>- Ymwybyddiaeth o risg<br>- Mathau o adeiladau<br>- Mathau o dân ac achosion tân<br>- Technoleg yn cynnwys cyfathrebu a'r IoT<br>- Ymwybyddiaeth y gwasanaeth tân<br>- Dealltwriaeth o danau | Papurau post-it, cardiau neu hecsagonau gan SOLO<br>Ar gyfer gweithgaredd meddwl-paru-rhannu, neu gall fod yn weithgaredd storm syniadau syml. |
| Gweithgaredd 3<br>**(30 mun)** | Er mwyn cael y myfyrwyr i ddechrau meddwl am y dasg benagored y byddant yn ei chyflawni ar wella diogelwch tân cymunedau, gallwch ofyn iddynt feddwl am ddigwyddiad hanesyddol.<br><br>Yr un mwyaf enwog yw Tân Mawr Llundain, a dyna'r un fydd y myfyrwyr yn fwyaf cyfarwydd ag ef.<br><br>Gan ddefnyddio'r ddolen i safle Tân Llundain (a grëwyd ar gyfer ei ben-blwydd yn 350 yn 2016) gofynnwch i'r myfyrwyr fynd drwy hanes y digwyddiad, a'r gêm ryngweithiol os yw'n briodol i'r oedran.<br><br>Ar y diwedd, rhannwch nhw yn barau er mwyn nodi beth ellid fod wedi ei wneud i wella'r sefyllfa ymlaen llaw ac yn dilyn y tân (cofiwch bod hyn yn hanesyddol). | Mynediad i liniaduron neu dabledi ar gyfer gweld yr hanes a'r gemau ar y wefan. Gellid gwneud hyn ar fwrdd gwyn fel grŵp cyfan.<br>www.fireoflondon.org.uk/story/ the-fire/ |

| | | |
|---|---|---|
| Gweithgaredd 4<br>**(15 munud o gyflwyniad, yna 5 awr)** | **Her benagored**<br>Gall hyn fod yn unigol/parau neu mewn grwpiau bach<br>Os byddant mewn grwpiau bach, gall fod yn fuddiol iddynt chwarae rolau.<br>Ar ôl trafodaethau gweithgareddau 2 a 3 bydd y myfyrwyr y cael manylion ymchwiliad penagored. Mae'r ymchwiliad yn ymwneud â naill ai gwneud cymunedau presennol yn fwy diogel neu gymunedau newydd yn fwy diogel o ran diogelwch tân.<br>Mae hynny wedi ei osod yng nghyd-destun adroddiad gan y llywodraeth a byddant yn defnyddio'r gymuned fel enghraifft o beth all diogelwch tân fod yn y dyfodol.<br>Mae angen iddynt ystyried y pwyntiau canlynol ac adrodd arnynt.<br>■ Dyluniad strwythurau a sut maent yn gweithio gyda'i gilydd<br>■ Canfod ardaloedd o risg mewn cymuned<br>■ Achosion tân<br>■ Ymatebion i dân<br>■ Gwybodaeth i'r cyhoedd<br>■ Technoleg<br>Sut y gall Rhywngrwyd Popeth (IoT) ategu gwelliannau yn y meysydd yma.<br>Gallant gynhyrchu cynlluniau, mapiau, modelau, adroddiadau, posteri, canllawiau diogelwch ar gyfer y cyhoedd a syniadau am dechnolegau newydd gaiff eu hategu gan IoT a dyluniadau.<br>Ar ddiwedd y ddwy awr, bydd angen iddynt gyflwyno eu hawgrymiadau i banel y llywodraeth (gweddill y clwb STEM).<br>Sicrhewch eu bod yn ymwybodol y bydd angen iddynt gyflwyno am amser penodol (bydd hynny yn dibynnu ar nifer y grwpiau) a chael rhywbeth i'w ddangos.<br>Mae yna hefyd ddetholiad o wefannau y gallwch eu hymgrymu i'r myfyrwyr edrych arnynt wrth ymchwilio.<br>Byddwch yn barod i annog y myfyrwyr gydag awgrymiadau. | ■ Gliniaduron/tabledi at ddibenion ymchwil<br>■ Deunyddiau posteri<br>■ Offer creu modelau<br>www.gov.uk/workplace-fire- safety-your-responsibilities<br>www.london-fire.gov.uk/FireSafety.asp<br>http://www.hse.gov.uk/toolbox/fire.htm<br>www.designingbuildings.co.uk/wiki/Fire_safety_design<br>www.lumkani.com/<br>www.london-fire.gov.uk/great- fire-of-london.asp<br>www.fireoflondon.org.uk/story/ the-fire/<br>www.fireoflondon.org.uk/<br>www.bbc.co.uk/newsround/37222884<br>www.london-fire.gov.uk/SafetyAtHome.asp<br>www.firesafe.org.uk/<br>www.bbc.co.uk/news/uk-england- london-36774166 |
| Gweithgaredd 5<br>**(60 mun)** | **Adborth**<br>Mae rhan olaf y gweithgaredd yn gyfle i'r myfyrwyr roi adborth ynglŷn â'u hawgrymiadau a'u canfyddiadau i weddill y grŵp.<br>Meddyliwch am gwestiynau annog mewn perthynas â phwyntiau y dylent eu codi. | |



# Nodiadau Ychwanegol

Ar gyfer gwobr Darganfod Crest, bydd angen i'r myfyrwyr ddatblygu a dangos y sgiliau canlynol, a byddai'n fuddiol mynd drwy hyn gyda nhw, ac esbonio beth allant ei gynnwys fel tystiolaeth ynghyd â'ch arsylwadau eich hun. Gall y myfyrwyr gasglu'r wybodaeth hon drwy ddefnyddio eu Pasbort Darganfod Crest.

| Amcanion Asesu | Gall gynnwys |
|---|---|
| Hunanreoli | ■ Parodrwydd i dderbyn cyfrifoldeb<br>■ Hyblygrwydd<br>■ Rheoli amser yn effeithiol<br>■ Cymhelliant i wella perfformiad<br>■ Hyder wrth daclo tasgau |
| Gweithio mewn tîm | ■ Parchu gwaith a safbwyntiau pobl eraill<br>■ Cydweithredu Negodi/perswadio<br>■ Cyfrannu'n gadarnhaol i drafodaethau<br>■ |
| Ddatrys problemau | Dadansoddi amgylchiadau a chymhwyso dull creadigol er mwyn datblygu datrysiadau |
| Ymchwilio | Caffael gwybodaeth newydd sy'n berthnasol i'r dasg a'i chymhwyso'n briodol |
| Cyfathrebu | ■<br>■ Dilyn cyfarwyddiadau ysgrifenedig a llafar<br>■ Siarad ag aelodau eraill y tîm a gwrando arnynt<br>Cynhyrchu cyflwyniad sy'n berthnasol i'r briff gwreiddiol ac sy'n adlewyrchu creadigrwydd y grŵp |
| Myfyrio | Y gallu i adnabod:<br>■ Pa wybodaeth a sgiliau sydd wedi eu caffael<br>■ Ble y gellid fod wedi gweithio'n fwy effeithiol<br>■ Ble'r oeddent wedi cyflawni disgwyliadau/ rhagori |

Gellir cydnabod y sgil hon drwy ddefnyddio Pasbort Darganfod

